

# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod Rhithiol a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021

<b>YN BRESENNOL:</b>	Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd) Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS (Is-gadeirydd)  Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, K P Hughes, Linos Medi Huws a R Meirion Jones
<b>WRTH LAW:</b>	Prif Weithredwr, Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Rheolwr Adnoddau Dynol (CW), Swyddog Pwyllgor (MEH).
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Cynghorydd Vaughan Hughes
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Dim

---

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol fel cofnod cywir:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill, 2021.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2021.

### 3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD gweithredu'r canlynol:-**

**“O dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaaedig.”**

### 4 PENODIADAU STAFF

#### **Pennaeth Gwasanaethau Oedolion**

Cafodd 3 ymgeisydd ar y rhestr fer, ar gyfer y rôl Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, eu cyflwyno ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Penodiadau.

Rhoddodd yr ymgeiswyr gyflwyniad, ateb cwestiynau ar y cyflwyniad ac yna ateb cyfres o gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor. Darparwyd adborth gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid ar y broses asesu a oedd yn cynnwys prawf seicomereg a chyfweliad proffesiynol a gynhaliwyd gan y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

Yn dilyn y broses gyfweld ffurfiol, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor Penodiadau benodi Mr Arwel Wyn Owen i'r swydd yn amodol ar dderbyn tystlythyrau derbyniol.

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS  
CADEIRYDD**